WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir Ceredigion

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill fel Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni; sut mae'n gwneud hynny; a'r hyn y mae angen i'r Awdurdod ei wneud i wella'r ffordd y mae'n gwella ei wasanaethau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a bob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Cyngor Sir Ceredigion (y Cyngor) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Cyngor wedi'u nodi fel blaenoriaethau o ran gwella.

Rydym am gael eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu yn eich ardal chi a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost at info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a’m cynorthwyodd i lunio’r adroddiad hwn Non Jenkins a Helen Keatley, o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella Cymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Archwilydd Cyffredinol Cymru a’i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at Archwilydd Cyffredinol Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.
Rhif ffôn: 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

©Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys


Pa fath o ardal yw Ceredigion? 04

A yw Cyngor Sir Ceredigion yn cael ei reoli'n dda? 05

A yw Cyngor Sir Ceredigion yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella? 08

A yw Cyngor Sir Ceredigion yn gwasanaethu pobl yn dda? 12

- A yw Cyngor Sir Ceredigion yn helpu pobl mewn angen? 13
- A yw Cyngor Sir Ceredigion yn helpu pobl i ddatblygu? 17
- A yw Cyngor Sir Ceredigion yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw? 19

Beth y dylai Cyngor Sir Ceredigion ei wneud? 24


**Atodiadau**


Atodiad 1 - Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn 26

Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Geredigion a Chyngor Sir Ceredigion 28

Atodiad 3 - Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol 29

Atodiad 4 - Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Sir Ceredigion 30

Atodiad 5 - Amcanion gwella Cyngor Sir Ceredigion 33

Atodiad 6 - Cyfeiriadau 34

# Pa fath o ardal yw Ceredigion?

1 Mae gan Geredigion arwynebedd daearyddol o 1,795km$^2$, sef y bedwaredd ardal awdurdod lleol fwyaf yng Nghymru. Mae arwynebedd y sir yn cyfrif am 8.6 y cant o gyfanswm arwynebedd Cymru. Mae'r sir yn ffinio â Gwynedd i'r gogledd, Powys i'r dwyrain, Sir Gaerfyrddin i'r de a Sir Benfro i'r de-orllewin, ac yn y gorllewin mae gan Geredigion 62 milltir o lwybr arfordirol gyda sawl traeth banner las. Mae rhan helaeth o economi'r ardal yn gysylltiedig ag ansawdd yr amgylchedd. Amaethyddiaeth, twristiaeth a'r sector cyhoeddus yw'r prif sectorau cyflogaeth. Mae 104 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn y sir, ac mae dyffryn Dyfi yn gartref i Fiosffer arddull newydd UNESCO cyntaf Cymru, sydd o'r radd flaenaf.

2 Mae Ceredigion yn ymddangos yn weddol gefnog ond ceir rhai ardaloedd o amddifadedd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Er nad oedd yr un o'i wardiau ymhlith y 10 ward fwyaf difreintiedig yng Nghymru, mae rhai o'i wardiau mwy gwledig yn dioddef o'r lefelau uchaf o amddifadedd yng Nghymru o ran cyflwr tai a mynediad i wasanaethau. Ceir dwy ardal Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn y Sir, un yn Aberystwyth/Penparcau a'r llall sy'n adlewyrchu'r amddifadedd gwledig yn ardal Ucheldiroedd Tregaron. Yn 2010, £425 oedd yr enillion cyfartalog wythnosol - sef y gyfradd isaf o blith 22 awdurdod lleol Cymru. Ar y llaw arall, nifer o ddisgyblion o oedran ysgol statudol sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim, sef 11.7 y cant, yw'r pedwerydd isaf yng Nghymru.

3 Mae Aberystwyth yn ganolfan o bwysigrwydd cenedlaethol, gan weithredu fel canolfan bwysicaf y rhanbarth o ran gweinyddiaeth, gwasanaethau a diwylliant, ac yn ogystal Aberystwyth yw'r gyrchfan fwyaf i dwristiaid ym Mae Ceredigion. Yn ddiweddar dynodwyd y dref yn Ardal Adfywio gan Llywodraeth y Cynulliad.

4 Ar sail yr amcangyfrif canol blwyddyn diweddaraf (2009), poblogaeth Ceredigion yw 76,400 a rhagwelir y bydd yn cynyddu 11 y cant i bron 85,000 erbyn 2033. Amcangyfrifir bod 33,032 o aelwydydd yng Ngheredigion (amcangyfrif 2007). Dengys proffil oedran poblogaeth Ceredigion, a luniwyd ar sail yr amcangyfrifon canol blwyddyn, mai nifer y plant (0-16 oed) yw 11,583 neu 15.1 y cant o gyfanswm y boblogaeth yn 2009, sy'n llai na chyfartaledd Cymru o 18.5 y cant. Fodd bynnag, ceir 15,952 o bobl 65 oed neu'n hŷn, sef 23.8 y cant o'r boblogaeth gyffredinol, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 21.4 y cant.

5 O gymharu â rhannau eraill o Gymru, mae gan Geredigion gyfran uchel iawn o fyfyrwyr. Yn ôl ffigurau'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), roedd 9,000 o fyfyrwyr addysg uwch llawn amser yng Ngheredigion ym Mhrifysgol Aberystwyth ac ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Campws Llanbedr Pont Steffan yn 2008-09. Mae'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr hyn yn byw yng Ngheredigion yn ystod y tymor, ac mae bron un o bob naw o drigolion Ceredigion yn fyfyrwyr.

6 Ceir rhagor o wybodaeth am Geredigion a Chyngor Sir Ceredigion (y Cyngor) yn Atodiad 2.

ardal ddaearyddol
1,795 km$^2$
/////////////

poblogaeth
76,400
/////////////

15.1% yn 0-16 oed
23.8% yn >65 oed
/////////////

# A yw Cyngor Ceredigion yn cael ei reoli'n dda?

7 Mae'r Cyngor yn cyflogi 3,700 aelod o staff, mewn chwe Adran. Yn 2009-10, gwariant refeniw gros yr Awdurdod oedd £202 miliwn, a gwariodd £30 miliwn ar brosiectau cyfalaf hefyd. Lleolir prif swyddfeydd y Cyngor yn Aberaeron ac Aberystwyth, a cheir is-swyddfeydd yn Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron.

8 Mae rheoli sefydliad mor fawr sydd ag ystod eang o wasanaethau yn broses gymhleth iawn. Ym mis Awst 2010 lluniodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad (sef yr Asesiad Corfforaethol) sy'n cynnwys cryn dipyn o fanylion am drefniadaeth y Cyngor a sut y caiff ei reoli. Nodir y negeseuon allweddol a roddwyd i'r Cyngor yn yr adroddiad hwnnw yn Atodiad 3. Os hoffech ddarllen yr Adroddiad Asesu Corfforaethol llawn mae ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

9 Casgliad cyffredinol yr adroddiad hwnnw oedd bod y Cyngor mewn sefyllfa fregus a'i fod yn cydnabod bod angen iddo newid y ffordd y mae'n rheoli ac yn cyflawni gwelliannau yn ystod y chwe mis nesaf er mwyn iddo wella gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

10 Hynny yw, canfuwyd gennym fod y Cyngor wedi defnyddio dull gweithredu eithaf traddodiadol dros y blynyddoedd diwethaf. Nid oedd wedi nodi blaenoriaethau clir, a fyddai'n ei alluogi i benderfynu pa wasanaethau i'w diogelu a ble y gallai gwtogi cyllid. Ac roedd y ffordd yr oedd y Cyngor yn cynllunio ac yn rheoli meysydd adnoddau allweddol, megis ei bobl, ei wasanaethau a'i brosiectau, yn golygu y byddai'n cael anhawster gwella ymhellach ac ymateb i'r heriau a wynebir ganddo. Yn ogystal, bydd yr heriau economaidd fydd yn wynebu pob cyngor yn y blynyddoedd i ddod, yn cynnwys toriadau mewn cyllidebau, hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor newid y ffordd y mae'n gweithio yn sylweddol.

11 Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i'r negeseuon a'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ein hadroddiad Asesu Corfforaethol. Roedd eisoes wedi gwneud rhai newidiadau i'w ffordd o weithio dros y blynyddoedd diwethaf, ac ers ein hadroddiad Asesu Corfforaethol, mae wedi cynyddu maint a chyflymder newid yn sylweddol ac wedi dechrau rhoi trefniadau cadarnach ar waith i reoli'r broses drawsnewid tuag at weithredu fel Cyngor mwy corfforaethol. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'r Cyngor yn cydnabod na all laesu dwylo o ran maint y newidiadau a'r risgiau cysylltiedig. Mae'r Cyngor wedi nodi blaenoriaethau sy'n ei alluogi i benderfynu ar ei feysydd allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau, a gwasanaethau eraill lle gellid lleihau lefel yr arian a ddarperir o bosibl. Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r broses drawsnewid o ran cynllunio a rheoli meysydd allweddol megis ei bobl, ei wasanaethau a'i brosiectau. Fel pob cyngor sy'n wynebu toriadau mewn cyllidebau, mae'r Cyngor yn paratoi am newidiadau sylweddol dros y blynyddoedd nesaf.

12 Yn Amcanion Cynllun Gwella 2010-11 (y Cynllun), mae'r Cyngor wedi pennu amcan gwella penodol ar gyfer 'Trawsnewid ein gwasanaethau i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol i ddinasyddion'. Mae hwn yn fater priodol i'r Cyngor roi blaenoriaeth iddo gan ei fod yn cefnogi gwelliannau o ran ansawdd gwasanaethau ac o ran effeithlonrwydd ac mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i sicrhau camau gweithredu clir ac iddynt ffocws er mwyn cyflawni'r amcan hwn. Er bod Cynllun y Cyngor wedi nodi nifer o ymrwymiadau a chamau gweithredu i gyflawni'r amcan, prin yw'r mesurau, y llinellau sylfaen, y cerrig milltir, y targedau neu'r canlyniadau a bennwyd. Mae angen bod yn glir o ran sut y mae'r amcan hwn yn cysylltu â chynlluniau perthnasol eraill. Mae'r Cyngor yn datblygu dull rheoli prosiect i fonitro cynnydd tuag at yr amcan hwn, ac i dangos tystiolaeth o lwyddiant a'i fod wedi cyflawni'r canlyniadau.

13 Mae Cynllun Gwella'r Cyngor wedi sefydlu cysylltiadau lefel uchel rhwng ei amcan ar gyfer 'Trawsnewid ein gwasanaethau i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol i ddinasyddion' a gwaith Bwrdd Gwasanaethau Lleol y sir o ran dod o hyd i arbedion, ac mae'r Cyngor yn atgyfnerthu'r cysylltiadau hyn ymhellach. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (y Bwrdd) yn cynnwys pob sefydliad sector cyhoeddus allweddol yng Ngheredigion ac mae wedi nodi prosiectau â blaenoriaeth sy'n ymdrin â lleihau allyriadau carbon, mynediad at wasanaethau, iechyd a gofal integredig (Cylch Caron). Mae hefyd wedi nodi pedwar prosiect penodol ar gyfer arbed costau (sef caffael, rheoli fflyd, glanhau a rheoli asedau) a chaiff pob prosiect ei arwain gan sefydliadau gwahanol sy'n rhan o'r Bwrdd. Mae'r Cyngor yn arwain y prosiect rheoli asedau a bydd yn ystyried opsiynau i sefydliadau partner rannu adeiladau.

14 Yn ddiweddar, mae'r pwysau wedi cynyddu ar bob gwasanaeth cyhoeddus i wneud y defnydd gorau posibl o'i holl adnoddau. Mae'r archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wedi cadarnhau yn ei Lythyr Blynyddol i'r Cyngor ar 30 Tachwedd 2010, bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r gofynion o ran cyflwyno adroddiadau ariannol ac adroddiadau ar wella perfformiad, ond ei fod yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol agos. Mae ei Lythyr Blynyddol ar gyfer 2010 wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn Atodiad 4[1].

15 O ganlyniad i'r hinsawdd ariannol, mae bron pob gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu toriadau ariannol. Arian refeniw yw'r arian y mae cynghorau yn ei wario ar redeg a rheoli eu gwasanaethau. Bydd y Cyngor yn gweld lleihad arian parod o tua £0.7 miliwn (0.7 y cant) yn yr arian refeniw a gaiff oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12. Ar ôl ystyried chwyddiant, golyga hynny doriad mewn termau real o tua £2.6 miliwn (2.6 y cant)[2]. Hefyd cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ddyraniadau Cyllideb ddangosol ar gyfer 2012-13 a 2013-14 a fydd o gymorth i'r Cyngor wrth iddo adolygu ei gynllun ariannol tymor canolig. Mae'r dyraniadau dangosol yn dangos cynnydd arian parod bach yn arian refeniw'r Cyngor gan Lywodraeth y Cynulliad o £0.2 miliwn ar gyfer 2012-13 a £1.1 miliwn ar gyfer 2013-14. Fodd bynnag, mae hyn cyn caniatáu ar gyfer pwysau chwyddiant.

16 Arian cyfalaf yw'r arian y mae cynghorau yn ei wario ar brosiectau cyfalaf a gwaith seilwaith, er enghraifft, adeiladau newydd, gwella ffyrdd a chyfarpar newydd. Bydd disgwyl i'r arian cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor leihau'n sylweddol. Dyrennir swm cyffredinol i Gynghorau ar gyfer gwariant cyfalaf, a gwnânt gynigion ar gyfer grantiau cyfalaf ychwanegol ar gyfer prosiectau cyfalaf penodol. Bydd cyfanswm yr arian cyfalaf sydd ar gael i gynghorau yn 2011-12 yn lleihau 14 y cant (sef lleihad o 18.5 y cant mewn termau real). Nid oes unrhyw ffigurau swyddogol ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol y tu hwnt i 2011-12 ond mae'n debygol o fod yn unol â lleihad cyffredinol yng ngwariant cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn lleihau tua 34 y cant (sef tua 40 y cant mewn termau real) rhwng 2010-11 a 2014-15.

1 Mae rhagor o wybodaeth ar gael ynglŷn â’r hawl i weld cyfrifon cynghorau yn nhaflen Swyddfa Archwilio Cymru , Cyfrifon cynghorau:eich hawliau, sydd ar gael ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk

2 Mae termau real yn golygu y rhoddir ystyriaeth i effeithiau chwyddiant. Ceir sawl mesur gwahanol o chwyddiant. Daw’r ffigurau a ddefnyddir ar gyfer cyllidebau sector cyhoeddus o gyfres datchwyddiant CMC y Trysorlys.

17 Mae'r lleihad mewn arian refeniw, a gyhoeddwyd fel rhan o setliad dros dro gan Lywodraeth y Cynulliad, yn llai nag a ragwelwyd gan y Cyngor. Felly mae'r Cyngor yn adolygu ac yn ailasesu ei gynllun ariannol tymor canolig, a oedd yn flaenorol yn adlewyrchu angen i ddod o hyd i arbedion gwerth £15 miliwn dros y tair blynedd nesaf, ond mae hyn bellach wedi lleihau i tua £6 miliwn. Mae'r arbedion amcangyfrifedig sydd eu hangen ar gyfer 2011-12 wedi lleihau o tua £5 miliwn i £3 miliwn, ac mae'r arbedion sydd eu hangen ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn is na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu cynllun arbedion tair blynedd.

18 Mae sicrhau enillion effeithlonrwydd i lenwi bwlch ariannu sydd o leiaf £6 miliwn dros y tair blynedd yn peri heriau nid yn unig i'r arweinyddiaeth, ond hefyd i'r Cyngor cyfan. Bydd yr hinsawdd ariannol fyd-eang a phenderfyniadau'r Cyngor dros y chwe mis nesaf yn parhau i gael effaith y tu hwnt i'r etholiadau lleol yn 2012. Fel y cyfryw, mae angen i'r Cyngor cyfan sicrhau ei fod yn cydweithio i gytuno ar gynllun ariannol tymor canolig realistig. Bydd hyn yn hanfodol os yw'r Cyngor am barhau i gyflawni gwelliannau ac arbedion effeithlonrwydd pellach yn y dyfodol.

19 Mae ôl-ddyledion treth gyngor y Cyngor wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, ac ar ddiwedd mis Mawrth 2010 roeddent yn werth £2.8 miliwn. At ddibenion cymharu, roedd y ffigur hwn ymhlith y lefel uchaf o dreth gyngor sy'n ddyledus fesul annedd y gellir codi treth arni ar gyfer pob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru. Mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â'i sefyllfa o ran ôl-ddyledion er mwyn gwella llif arian a sicrhau y caiff yr holl incwm sy'n ddyledus iddo.

20 Ar nodyn mwy cadarnhaol, yn 2008-09, gwnaeth Cyngor Sir Ceredigion lai o or-daliadau budd-daliadau ac adenillodd cyfran uwch o'r arian hwnnw o gymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd gwella trefniadau adennill dyledion. Yn 2008-09 gor-dalodd y Cyngor £62,000 yn llai o fudd-daliadau, sef lleihad o 0.62 y cant, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol gan fod y gwasanaeth wedi gwella trefniadau i atal gordalu budd-daliadau, ac mae ganddo drefniadau da i nodi achosion o or-dalu budd-daliadau. Yn 2008-09, cynyddodd cyfradd y dyledion a adenillwyd yn sylweddol, o 28 y cant, ers y flwyddyn flaenorol, er bod y dull adennill yn ystyriol o galedi ariannol cwsmeriaid. Roedd y ffigurau ar gyfer casglu dyledion yn 2009-10 yr un fath â 2008-09, sy'n cynnal y gwelliant ym mherfformiad y Cyngor.

# A yw Cyngor Ceredigion yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella?

21 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi cynlluniau ar gyfer gwella'r hyn a wna a sut y mae'n ei wneud. Mae'n rhaid iddo hefyd gyhoeddi rhestr o'r prif bethau y mae'n bwriadu eu gwella bob blwyddyn - ei amcanion gwella. Ar gyfer 2010-11, penderfynodd Cyngor Ceredigion ganolbwyntio ar bum amcan, sef:

- trawsnewid ein gwasanaethau i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol i ddinasyddion;
- adfywio Aberystwyth fel canolfan ranbarthol a chenedlaethol;
- datblygu addysg yng Ngheredigion;
- mesur i ddiogelu'r amgylchedd a darparu amgylchedd cynaliadwy;
- gwella'r ffyrdd rydym yn diogelu'r bobl sy'n agored i niwed yn ein cymuned.

22 Mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella a'i gynlluniau i'w cyflawni cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dechrau mis Ebrill bob blwyddyn. Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar ei wefan yn gynharach yn 2010 ac aeth ati i baratoi dogfen a elwir yn Amcanion Cynllun Gwella 2010-11 (y Cynllun) gyda mwy o fanylion am bob amcan gwella. Cytunodd y Cyngor ar y Cynllun ym mis Gorffennaf 2010 ac fe'i cyhoeddwyd ar y wefan yn yr un mis ar ffurf drafft[3] ac mewn copi caled ar gyfer y cyhoedd ym mis Medi. Gan fod y ddogfen hon yn bwysig iawn i'r Cyngor a phobl leol, credwn y dylai fod yn fwy amlwg ar wefan y Cyngor. Bydd angen i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella a'i amcanion yn gynharach y flwyddyn nesaf.

23 Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor lunio adolygiad blynyddol o'i gyflawniadau a'i gynnydd o fewn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Felly, cyhoeddodd y Cyngor Perfformiad y Cynllun Gwella 2009-10 erbyn y dyddiad gofynnol ym mis Hydref 2010 er mwyn gwneud sylwadau ar ei berfformiad o fis Ebrill 2009 i fis Mawrth 2010[4]. Mae'r Cynllun hwn yn bodloni gofynion statudol ac yn rhoi darlun cytbwys o berfformiad y Cyngor yn 2009-10. Rydym o'r farn y dylid gwneud y gwelliannau canlynol i'r adroddiad ar Berfformiad y Cynllun Gwella ar gyfer y flwyddyn nesaf:

- Dylai'r Cyngor ei gwneud yn glir, yn enwedig i'r cyhoedd, lle y mae'n perfformio'n dda a lle nad yw'n perfformio cystal.
- Mae gan bob maes gwella gwasanaeth dargedau mesuradwy. Nid yw'r crynodeb o Berfformiad Cynllun Gwella 2009-10 mor effeithiol ag y gallai fod. Yn y blynyddoedd i ddod, bydd angen talu mwy o sylw i sicrhau bod y crynodeb yn fwy darllenadwy, cynnwys mwy o rifau sy'n adlewyrchu dangosyddion perfformiad gwirioneddol, a sicrhau bod y cyflwyniad yn canolbwyntio mwy ar allbynnau a chanlyniadau yn hytrach nag ar fewnbynnau neu brosesau.

24 Mae'r Cyngor wedi dewis cyhoeddi ei holl ddata er mwyn sicrhau y rhoddir darlun cytbwys. Yn y blynyddoedd i ddod, efallai y bydd y Cyngor am ystyried cyhoeddi llai o ddangosyddion, gan sicrhau bod y set o ddangosyddion a gyhoeddir ganddo yn cyd-fynd â'i flaenoriaethau a'i ganlyniadau ei hun. Byddai hynny'n arbed ymdrech i'r Cyngor, a byddai'n fwy ystyrlon ar gyfer trigolion a defnyddwyr gwasanaethau.

3 Gellir gweld Amcanion Cynllun Gwella'r Cyngor ar ei wefan yn www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=14508
4 Gellir gweld Perfformiad Cynllun Gwella'r Cyngor ar ei wefan yn http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=15694

25 Roeddem am sicrhau bod y Cyngor yn nodi'n glir sut y bydd pobl ar eu hennill os bydd yn gwella fel y bwriedir. Rydym o'r farn nad yw Cynllun Gwella'r Cyngor yn gwneud cyfiawnder â rhai o'i gynlluniau eraill a pherfformiad o ran gwella rhai gwasanaethau. Mae rhai amcanion gwella yn well nag eraill, ond mae angen datblygu'r amcanion hynny a'r trefniadau ar gyfer eu cyflawni ymhellach. Mae'r Cyngor yn cydnabod hyn ac mae wedi dechrau gwneud cynnydd.

26 Mae pob amcan yn disgrifio'r gweithgareddau a'r mewnbynnau a gyflawnir gan y Cyngor, ac yn nodi manylion y mathau o brosiectau a gefnogir ganddo. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhaid iddo atgyfnerthu'r ffordd y mae'n dangos buddiannau cadarnhaol ei ymdrechion ar gyfer pobl leol. Wrth fesur ei effaith, bydd angen i'r Cyngor werthuso pa mor effeithiol y mae'n gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill, a chanlyniadau'r gwaith partneriaeth hwnnw. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fod llai o arian ar gael.

27 Mae Cytundeb y Cyngor ar Ganlyniadau â Llywodraeth y Cynulliad yn nodi gwybodaeth glir am yr hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni a sut y bydd yn ei gyflawni ac yn mesur ei gyflawniadau. Dylai'r Cyngor geisio dysgu o'r ffordd y mae wedi llunio ei Gytundeb ar Ganlyniadau a defnyddio fformat tebyg i fireinio ei amcanion gwella a'i drefniadau monitro a rheoli perfformiad yn erbyn ei Gynllun Gwella presennol a chynlluniau gwella'r dyfodol.

28 Gwnaethom edrych hefyd ar ba mor dda yr oedd y Cyngor wedi cynnwys pobl leol a'r rhai sy'n gweithio iddo a chydag ef, wrth bennu'r hyn y dylid ei flaenoriaethu. Mae dull gweithredu'r Cyngor o ran canolbwyntio ar gwsmeriaid yn datblygu o hyd.

29 Mae'r Cyngor yn gofyn am safbwyntiau staff, dinasyddion, partneriaid a sefydliadau eraill. Fodd bynnag, mae ei drefniadau ar gyfer coladu, dadansoddi a gwerthuso'r wybodaeth hon yn parhau i fod yn anghyson ac nid ydynt wedi'u datblygu'n ddigonol. Hefyd, nid yw'n glir pam fod y Cyngor wedi defnyddio blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad i ymgynghori â dinasyddion Ceredigion er mwyn llywio ei amcanion gwella, yn hytrach na'i flaenoriaethau ei hun. Mae'r Cyngor yn gwybod bod rhaid iddo wella'r ffordd y mae'n defnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i flaenoriaethu a gwneud gwelliannau, arbedion a phenderfyniadau anodd eraill.

30 Mae'r Cyngor yn defnyddio ystod o ddulliau ymgynghori i lywio ei brosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau. Yn ystod hydref 2010, mae'r Cyngor wedi ymgynghori â chynghorau tref a chynghorau cymuned ynghylch cyfeiriad a blaenoriaethau'r Cyngor dros y blynyddoedd i ddod. Yn y cyfarfodydd cafwyd syniadau a fydd yn helpu'r Cyngor i baratoi cyllideb y flwyddyn nesaf a chyllidebau'r blynyddoedd i ddod, ac mae'r amser a fuddsoddwyd gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr a'u hymrwymiad wrth fynychu'r cyfarfodydd hyn wedi helpu i sicrhau ymgysylltu a pherchenogaeth wrth fynd i'r afael â'r heriau a wynebir. Mae'r Cyngor hefyd yn mynd ati i gasglu awgrymiadau gan ei staff ei hun o ran sut y gall wella gwasanaethau.

31 Cyflawnir cyfrifoldeb ffurfiol Ceredigion i ymgysylltu â dinasyddion drwy'r Panel Dinasyddion. Ceir trefniant ar y cyd rhwng Heddlu Dyfed Powys, Bwrdd Iechyd Hywel Dda a'r Cyngor, ac felly y bu am y ddwy flynedd ddiwethaf. Cynhelir arolygon chwarterol a chyflwynir adroddiadau ar yr ymatebion i Gabinet a holl Aelodau'r Cyngor er mwyn gallu ystyried barn dinasyddion wrth ddatblygu ac adolygu gwasanaethau'r Cyngor.

32 Mae'r Cyngor hefyd yn ymgynghori â'r cyhoedd o ran materion Diogelwch Cymunedol mewn ffordd arloesol. Y Cyngor oedd y cyntaf yng Nghymru i gynnal ymgynghoriad ar y cyd â'r Heddlu a'r Awdurdod Tân i sicrhau ymgysylltu cost-effeithiol ac iddo ffocws â dinasyddion mewn cyfarfod cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn cefnogi fforymau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau amrywiol, ac mae ei fforymau ar gyfer pobl sy'n hŷn na 50 (fforymau 50+) yn dechrau dylanwadu ar ei wasanaethau. Er enghraifft, mae'r fforwm yn Aberteifi wedi dylanwadu ar ddyluniadau ei gynllun Tai Gofal Ychwanegol, ac yn Aberystwyth mae pobl hŷn wedi dylanwadu'n llwyddiannus ar gynllun llwybrau bysiau, a bellach maent yn ceisio gwella lleoliad safleoedd bws.

33 Mae uwch reolwyr y Cyngor yn cydnabod bod cyfathrebu mewnol da yn elfen hanfodol o raglen drawsnewid y Cyngor ac yn hanfodol er mwyn helpu i reoli newid. Mae hyn yn debygol o beri heriau pellach gan fod adnoddau eisoes yn brin ym maes cyfathrebu, a bydd angen i'r Cyngor ystyried y ffordd orau o ddarparu cymorth.

34 Mae'r Cyngor yn llunio adroddiad blynyddol ar gwynion. Bu cynnydd ar y cyfan yn nifer y cwynion a wnaed o dan gam 2 o weithdrefn gwyno'r Cyngor rhwng 2006-07 a 2008-09 (nid yw'r ffigur ar gyfer 2009-10 ar gael eto). Ymdrinnir â'r rhan fwyaf o'r cwynion o dan weithdrefn gwyno'r Cyngor gan yr adran berthnasol. Dim ond 10 cwyn a drosglwyddwyd i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol o dan gam 3 o'r weithdrefn yn 2008-09 a dim ond tair cwyn a gyfeiriwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

35 Mae'r Cyngor yn dysgu o'r cwynion sy'n dod i law, ond gallai wneud mwy i wella sut y cofnodir cwynion yn systematig ar draws systemau adrannol. Gallai'r Cyngor ystyried defnyddio ei system rheoli perfformiad (Ffynnon) yn hytrach na defnyddio systemau adrannol ar wahân i gofnodi data am gwynion. Dylai hefyd ystyried cyflwyno system i gofnodi cwynion.

36 Gofynnwyd pa mor dda y bydd cynlluniau'r Cyngor yn cefnogi ei ymdrechion i wella a sut y byddai'n talu am y gwelliannau hyn. Nid oes unrhyw gysylltiadau clir i ddangos sut y mae'r amcanion a'r camau gweithredu ar gyfer gwella yn y Cynllun Gwella yn cysylltu â chynlluniau eraill y Cyngor, yn cynnwys ei gynllun ariannol. Felly nid yw'n glir o gynlluniau'r Cyngor sut y bydd yn talu am ei welliannau arfaethedig. Bydd angen i'r Cyngor barhau i adolygu ei gynlluniau i sicrhau eu bod yn fforddiadwy wrth wynebu penderfyniadau anodd o ran gwariant.

37 Mae angen i bob cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn darparu gwasanaethau da a'u gwella. Nodwyd yn ein hadroddiad asesu corfforaethol nad oedd systemau'r Cyngor ar gyfer casglu a defnyddio gwybodaeth ar draws ei adrannau i reoli a llywio gwelliant yn ddigonol, bod angen gwneud mwy o waith arnynt, ac nad oedd ganddo wybodaeth briodol am reoli perfformiad corfforaethol ac adrodd am y perfformiad hwnnw yn 2009-10.

38 Yn 2010 wynebodd y Cyngor gyfnod pontio wrth newid o system o'r enw 'Performance Accelerator' i'r system gwybodaeth am berfformiad newydd, 'Ffynnon'. Achosodd y system newydd ar gyfer casglu gwybodaeth a data am ddangosyddion oedi o ran cyflwyno trefniadau adrodd Rheoli Perfformiad Corfforaethol, a oedd yn golygu nad oedd y Cyngor yn gallu monitro camau gweithredu yn erbyn cynlluniau busnes yn ystod y cyfnod trosiannol.

39 Dros y chwe mis diwethaf, gwnaed cynnydd ardderchog drwy gyflwyno a defnyddio system Ffynnon, a bellach cyflwynir adroddiadau perfformiad chwarterol ar sail gorfforaethol. Mae staff a chynghorwyr wedi'u hyfforddi i wneud y defnydd gorau o system Ffynnon, gan eu galluogi i olrhain perfformiad gwasanaethau a'r targedau a bennwyd a helpu'r Cyngor i gynllunio gwelliannau i wasanaethau. Mae hyder y Cyngor yn system Ffynnon yn cynyddu.

40 Cam allweddol pellach yw gwella'r ffordd y mae'n dangos sut y mae pobl leol yn cael budd o'i berfformiad gwell. Bydd hyn yn ei helpu i ddeall tueddiadau'n well a sut i ragweld materion sylfaenol ac ymateb iddynt wrth wneud penderfyniadau pwysig yn y blynyddoedd i ddod.

41 Nodwyd yn ein Hasesiad Corfforaethol fod tîm arwain y Cyngor yn cydnabod bod angen atgyfnerthu ei drefniadau rheoli pobl er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau staff cyfyngedig i sicrhau gwelliant. Mae wedi dechrau ailystyried sut y gallai ei swyddogaeth Adnoddau Dynol fod yn fwy o adnodd corfforaethol yn hytrach na chael ei rhannu ymysg yr adrannau unigol. Ers hynny mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd pellach.

42 Bydd proses ailstrwythuro fewnol i sicrhau bod y rheolwr Adnoddau Dynol Corfforaethol yn atebol i'r Prif Weithredwr ac yn gyfrifol am reoli'r holl staff sy'n ymgymryd â swyddogaethau personél mewn adrannau. Bydd trefniadau newydd y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau o ran Adnoddau Dynol ac yn sicrhau mwy o gysondeb o ran rhoi gweithdrefnau a pholisïau ar waith.

# A yw Cyngor Ceredigion yn gwasanaethu pobl yn dda?

43 Drwy Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol gobeithiwn yn raddol greu darlun o ba mor dda y mae'r Cyngor yn gwasanaethu pobl leol. Er mwyn gwneud hynny, bob blwyddyn byddwn yn edrych ar wasanaethau'r Cyngor a rhai o'r amcanion ar gyfer gwella fel y maent yn berthnasol i dair agwedd bwysig ar fywyd yng Ngheredigion. Credwn, gyda'i gilydd, eu bod yn cwmpasu'r prif bethau y mae cynghorau yn eu gwneud. Mae'r agweddau fel a ganlyn:

- helpu i gefnogi pobl mewn angen;
- helpu pobl i ddatblygu;
- helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw ynddo.

44 Yn yr asesiad eleni, rydym wedi edrych sut mae'r Cyngor yn perfformio hyd yn hyn mewn perthynas â phob un o'r agweddau hyn. Rydym wedi edrych ar bob un o bum amcan gwella'r Cyngor ond nid yn fanwl iawn oherwydd y byddwn yn eu hystyried yn fanylach yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

45 Yn gyffredinol, os yw'r Cyngor wedi dewis blaenoriaethu pethau, dylai fod yn gallu eu mesur o ran sut maent yn effeithio ar bobl leol.

46 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Yr Awdurdodau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn sy'n bennaf cyfrifol am ystod a safon y gwasanaethau hynny, gan weithio yn unol â fframwaith statudol a chanllawiau'r Bwrdd. Disgwylir i bob Awdurdod Lleol gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i'r Bwrdd sy'n egluro sut y gweithredwyd ei gynllun. Mae'r Adroddiad hwn yn galluogi'r Bwrdd i gynnig cyngor o ran sut y gallai Cyngor wella'i drefniadau lleol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun i asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg ac i ysgogi gwelliant.

47 Yn 2009, roedd 52 y cant o boblogaeth Ceredigion yn gallu siarad Cymraeg, o gymharu â 25.6 y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru. Mae hon ymhlith y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg ym mhob un o'r 22 sir yng Nghymru.

48 Mae'r Bwrdd wedi canmol y Cyngor am ei waith i asesu cydymffurfiaeth contractau a roddir i ddarparwyr cartrefi gofal trydydd parti â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg ac am ei ymrwymiad i ymestyn yr asesiadau i wasanaethau cymdeithasol eraill a osodir ar gontractau allanol. Mae gan y Cyngor y gallu i gasglu a chofnodi data ar sgiliau ieithyddol staff. Mae'r data hwn yn awgrymu bod ganddo ddigon o siaradwyr Cymraeg i'w alluogi i ddarparu gwasanaeth Cymraeg cynhwysfawr ar draws pob maes gwasanaeth. Cafodd y Bwrdd fod gwefan y Cyngor, ei ddogfennaeth etholiadol a'i hysbysebion statudol a hysbysebion recriwtio yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Fodd bynnag mae'r Bwrdd yn parhau i ddatgan pryder nad yw arweinwyr y Cyngor yn craffu'n ddigonol ar y Cynllun nac yn dangos digon o berchenogaeth drosto. Ni chyflawnwyd llawer o dargedau'r Cynllun Iaith Gymraeg o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn disgwyl i'r Cyngor fynd i'r afael â'r problemau hyn yn dilyn cynnydd yn yr adnoddau sydd ar gael.

49 Dyrannwyd adnoddau ychwanegol gan y Cyngor a ddylai fynd i'r afael â'r angen i wella trefniadau craffu a pherchenogaeth o'r Cynllun, a hefyd helpu i gyflawni targedau o fewn yr amserlen a nodwyd.

# A yw Cyngor Ceredigion yn helpu pobl mewn angen?

50 Mae perfformiad gwasanaeth tai'r Cyngor yn gymysg, ond nid yw tai wedi'i nodi fel amcan gwella penodol. Fodd bynnag, nodwyd agweddau amrywiol ar dai fel meysydd blaenoriaeth o fewn canlyniadau Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ddrafft y sir, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn arwain o ran atebion effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd yn Nhregaron. Yn ogystal, mae cynlluniau'n cael eu gweithredu i ymgorffori tai fel rhan annatod o'r broses o adfywio Aberystwyth, a gwnaed cais i Lywodraeth y Cynulliad am arian i gynorthwyo'r fenter hon. Mae gan y Cyngor hanes da o wella safonau tai yn Aberteifi, yn enwedig o ran helpu pobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed i fod yn fwy diogel yn eu cartrefi eu hunain.

51 Mae cyfradd y ddarpariaeth o dai fforddiadwy ychwanegol yng Ngheredigion wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf, gan leihau o gyflawni 45 uned yn 2007-08 i 38 yn 2009-10 oherwydd y lleihad yn y ddarpariaeth o dai fforddiadwy gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Hwn oedd y pedwerydd ffigur isaf yng Nghymru, ac roedd yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru o 112. Fodd bynnag, perfformiad y Cyngor o ran darparu tai fforddiadwy drwy rwymedigaethau cynllunio gan ddefnyddio cytundebau Adran 106[5] oedd y pedwerydd uchaf yng Nghymru, sef 35 o unedau. Mae'r Cyngor, fel llawer o gynghorau eraill, yn wynebu heriau sylweddol er mwyn sicrhau y caiff mwy o dai fforddiadwy eu datblygu yn y dyfodol.

52 Mae'r gyfradd derbyn pobl fel pobl ddigartref yng Ngheredigion wedi parhau'n well na chyfartaledd Cymru ers 2001-02 ac eithrio 2004-05. Mae Deddf Digartrefedd 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol atal digartrefedd lle bynnag y bo'n bosibl. Mae'r Cyngor wedi datblygu gwasanaeth atal, ac mae hyn wedi'i alluogi i sicrhau canlyniadau llawer mwy buddiol i bobl sy'n wynebu'r posibilrwydd o fod yn ddigartref.

53 Ym mis Tachwedd 2009, yn unol â dymuniadau'r rhan fwyaf o'i denantiaid, trosglwyddodd y Cyngor ei dai cyngor yn llwyddiannus i Dai Ceredigion, sef sefydliad tai nid-er-elw newydd, er mwyn cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2015. Roedd hwn yn benderfyniad sylweddol i'r Cyngor er mwyn helpu sicrhau gwell safonau tai ac ansawdd bywyd ar gyfer 2,200 o aelwydydd yng Ngheredigion. Rydym yn cynnal astudiaeth genedlaethol ledled Cymru ar ba mor dda mae cynghorau a chymdeithasau tai yn perfformio o ran gwella tai i gyrraedd safon ansawdd tai Cymru. Byddwn yn cyhoeddi'r astudiaeth genedlaethol hon yn 2011.

54 Mae'r graddau y mae pobl hŷn (65 oed neu'n hŷn) yn cael cymorth yn y gymuned yng Ngheredigion wedi bod ymhlith chwarter uchaf cynghorau Cymru yn gyson rhwng 2005-06 a 2008-09. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn Sir sydd â'r disgwyliad oes hiraf i ddynion a menywod yng Nghymru gyfan. Mae'r disgwyliad oes i ddynion a menywod, sef dros 80 mlynedd, wedi parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru ac wedi cynyddu'n gyson ers 2001. Gyda chyfran o bobl hŷn sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a'u disgwyliad oes hirach, bydd y Cyngor yn wynebu heriau fwyfwy sylweddol o ran diwallu anghenion pobl hŷn.

5 Mae Adran 106 (A106) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu i awdurdod cynllunio lleol lunio cytundeb neu rwymedigaeth gynllunio sy'n gyfrwymol yn gyfreithiol gyda thirfeddiannwr o ran rhoi caniatad cynllunio. Gelwir y rhwymedigaeth yn Gytundeb Adran 106. Mae'r cytundebau hyn yn ffordd o gyflawni neu fynd i'r afael â materion sy'n ofynnol i wneud datblygiad yn dderbyniol o ran cynllunio. Fe'u defnyddir fwyfwy i gefnogi'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy ac yn nodweddiadol, byddai disgwyl i ddatblygiad tai newydd tros faint trothwy penodol ddarparu cyfran o dai fforddiadwy a bennwyd ymlaen llaw.

55 Yn 2007 roedd gan drigolion Ceredigion un o'r cyfraddau isaf o feichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau yng Nghymru, gyda 32.9 achos o feichiogi fesul 1,000 o ferched 15 i 17 oed. Cyfradd gyfartalog Cymru bryd hynny oedd 44.9 achos o feichiogi. Mae'r Sir hefyd yn perfformio'n dda o ran dangosyddion iechyd eraill dros gyfnod o flynyddoedd. Mae cyfraddau gordewdra ymhlith oedolion ac ysmygu yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru, a hynny ers 2001.

56 Nid oedd canran y plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi cael tri o leoliadau neu fwy'r flwyddyn yng Ngheredigion cystal â chyfartaledd Cymru yn 2005-06, ond bu gwelliant sylweddol yn 2006-07 i lefel a oedd cryn dipyn yn well na chyfartaledd Cymru. Mae'r gyfradd wedi amrywio ers hynny, ond mae'n parhau i fod yn well na chyfartaledd Cymru.

57 Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yw cyflawni asesiadau proffesiynol a llunio barn broffesiynol ynghylch gofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol ac annog darparwyr y gwasanaethau i wella. Mae'n gweithio ar ran Gweinidogion Cymru, ond mae nifer o fesurau diogelu ar waith i sicrhau ei hannibyniaeth. O dan ddeddfwriaeth newydd ceir fframwaith newydd ar gyfer gwaith arolygu, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

58 Mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol lunio adroddiad hunanasesu blynyddol ar ba mor dda y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Yna bydd AGGCC yn mynd ati i adolygu a dadansoddi tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad, gan gynnwys tystiolaeth a roddir gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill. Yn dilyn y gwaith dadansoddi hwn caiff cynllun arolygu ac adolygu unigol ei lunio ar gyfer pob cyngor. Caiff dadansoddiad AGGCC, ynghyd â'r cynllun arolygu ac adolygu, eu cyflwyno bob blwyddyn mewn llythyr a gyhoeddir.

59 2009-10 yw blwyddyn lawn gyntaf y fframwaith newydd sydd â'r nod o sefydlu llinell sylfaen o berfformiad presennol. Ceir crynodeb o negeseuon allweddol y llythyr a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010 isod.

60 Mewn perthynas â gwasanaethau i oedolion, mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd drwy ddarparu ystod o wybodaeth ddwyieithog am ei wasanaethau. Mae mynediad ar gyfer oedolion wedi'i wella gan ganolfan gyswllt, a nodwyd bod perfformiad y ganolfan, a gaiff ei fonitro drwy arolygon, yn ardderchog. Canfu arolygiadau rheoliadol AGGCC fod safonau ansawdd da ar waith ar gyfer y ddarpariaeth gofal cartref fewnol a'r cynllun ail-alluogi. Yn ogystal, mae cyfradd y bobl y ceir oedi wrth eu rhyddhau o'r ysbyty bellach yn is na chanolrif Cymru a cheir broses barhaus o ddatblygu gwasanaethau ar gyfer oedolion i'w helpu i aros yn y gymuned.

61 Fodd bynnag, ceir rhai pryderon am oedi wrth ddarparu gwasanaethau cymunedol a'r amseroedd aros ar gyfer asesiadau therapi galwedigaethol. Yn ogystal cafodd y Cyngor anhawster i wella ei berfformiad o ran cwblhau adolygiadau o gynlluniau gofal. Mae perfformiad o ran nifer y gofalwyr sy'n cael cynnig asesiad ymhlith y gwaethaf yng Nghymru, er bod y sector gwirfoddol yn darparu ystod eang o wasanaethau ar gyfer gofalwyr. Nid oes fframwaith sicrhau ansawdd cyffredinol ar gyfer gwasanaethau oedolion, er bod pennaeth gwasanaethau oedolion wedi nodi hwn fel maes â blaenoriaeth ar gyfer datblygu.

62 Cafwyd perfformiad da yn gyson yng ngwasanaethau plant mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu gwasanaethau cymorth ar gyfer plant ag anabledd drwy dîm aml-asiantaethol. Nodwyd hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol fel cryfder, a chanfu arolygiad diweddar bod y gwasanaeth cwynion yn codi ymwybyddiaeth o bryderon defnyddwyr mewn ffordd effeithiol.

63 Mae'r meysydd i'w gwella o ran gwasanaethau plant yn cynnwys amseroldeb gwneud penderfyniadau o ran atgyfeiriadau yn ogystal ag amserlenni ar gyfer cael asesiadau cychwynnol. Gellid hefyd wneud gwelliannau mewn perthynas â lleihau cyfraddau ail-atgyfeirio yn ogystal ag ymgorffori systemau 'sicrhau ansawdd' systematig ar draws gwasanaethau plant. Mae cynllunio olyniaeth mewn perthynas â gwasanaethau maethu yn faes arall i'w wella.

64 Bu gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol ar gyfer gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant ac mae'r polisi recriwtio yn ystyried iaith wrth ddewis ymgeiswyr a sicrhau cydbwysedd o fewn timau. Maes i'w wella ar gyfer y gwasanaeth cyffredinol yw monitro cyfraddau ac ansawdd trefniadau goruchwylio ac arfarnu staff.

## A yw Cyngor Ceredigion yn gwella'r ffordd y mae'n diogelu'r rheini sy'n agored i niwed yn ei gymuned?

65 Mae gwella'r ffordd y mae'n diogelu pobl sy'n agored i niwed yn fater priodol i'r Cyngor fynd i'r afael ag ef gan ei fod yn hybu tegwch, yn adlewyrchu'r ffaith fod nifer y bobl hŷn yn y sir yn cynyddu, a bod ei drefniadau ar gyfer diogelu oedolion yn faes i'w wella o hyd.

66 Nodwyd yn ein hadroddiad Asesu Corfforaethol fod y Cyngor wedi wynebu heriau o ran trawsnewid agweddau ar ofal cymdeithasol. Mae'r heriau hyn yn cynnwys diogelu oedolion sy'n agored i niwed; cyflawni arbedion ariannol ac ymdrin ag achosion o orwario, salwch ac anawsterau'n ymwneud â gallu ac adnoddau; osgoi lleoli pobl hŷn sydd â demensia y tu allan i'r sir; a mynd i'r afael â'r agenda annibyniaeth drwy ddatblygu ystod ehangach o opsiynau cymunedol sy'n hybu annibyniaeth.

67 Nodwyd gennym hefyd fod cynnydd yn y gorffennol wedi amrywio yn aml oherwydd problemau o ran gallu ac adnoddau o fewn y Cyngor a'r broses o ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, ond ceir arwyddion cadarnhaol bod cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a'r Cyngor wedi cyflymu'n fwy diweddar.

68 Nododd y Cyngor gamau gweithredu yn ei Gynllun Gwella i wella'r ffordd y mae'n diogelu pobl sy'n agored i niwed. Ar hyn o bryd mae'r camau gweithredu hyn yn canolbwyntio'n briodol ar wella prosesau o fewn gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor. Mae angen i'r Cyngor allu dangos bod gwell prosesau yn cyflawni gwell canlyniadau i bobl yng Ngheredigion sy'n agored i niwed.

69 Nododd arolygiad AGGCC yn 2009 o'r ffordd yr oedd cynghorau yng Nghymru yn diogelu plant fod y Cyngor cynlluniau yn darparu gwasanaeth cadarn i ddiogelu ac amddiffyn plant, ond ei fod yn wynebu heriau penodol oherwydd ei faint a'i natur wledig.

70 Dangosodd arolygiad AGGCC yn 2010 o ba mor dda yr oedd cynghorau ledled Cymru yn amddiffyn eu hoedolion nad oedd y Cyngor na'i bartneriaid yn rhoi ymateb effeithiol cyson i rai camau o'r broses o amddiffyn oedolion. Nododd hefyd fod angen i'r Cyngor fynd i'r afael â rhai meysydd allweddol o arfer rheng flaen, yn cynnwys dealltwriaeth a chymhwysiad cyffredinol o drothwyon ar draws pob asiantaeth. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda chymorth y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion newydd, eisoes wedi dechrau mynd i'r afael â rhai o'r materion a nodwyd gan yr arolygiad. Argymhellodd yr adroddiad bod angen i'r Pwyllgor Ardal Amddiffyn Oedolion lywio cynllun gwella y cytunwyd arno er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn darparu ymateb cyson a chadarn o ran amddiffyn oedolion.

71 Daeth ein gwaith i asesu gwasanaethau ar gyfer oedolion sydd ag anghenion iechyd meddwl ar draws Cymuned Iechyd Hywel Dda i'r casgliad y gwnaed cynnydd da o ran gwella gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion ers ein hadolygiad sylfaenol yn 2005, ond mae'r agenda gwella wedi'i llywio'n bennaf gan yr hen Ymddiriedolaeth GIG ac nid yw wedi adlewyrchu dull system gyfan ac ehangach o weithredu. Cyfrannodd y gwaith hwn at ein hadroddiad cenedlaethol[6] a asesodd y gwasanaethau tai i oedolion ag anghenion iechyd meddwl.

72 Mae'r Cyngor yn ariannu ac yn gweithio gydag Age Concern er mwyn sicrhau bod yr holl drigolion yn derbyn y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, a bod y cynllun Gofal a Thrwsio yn ymweld â chartrefi pobl er mwyn sicrhau y gall pobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed fyw'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach.

73 Mae angen i'r Cyngor barhau i weithio i wella perfformiad a phrosesau o ran rhai agweddau ar ei wasanaethau cymdeithasol. Mae cydberthnasau da gyda gwasanaethau iechyd a phartneriaid eraill yn parhau i wella, ac maent wedi dechrau mynd i'r afael â rhai o'r materion.

74 Mae'r Cyngor ar gam cynnar yn y broses o baratoi cynllun i drawsnewid ei wasanaethau cymdeithasol. Mae wedi symud yn gyflym i leoli ei swyddogion ei hun a staff o'r gwasanaeth iechyd yn yr un lle i helpu i integreiddio gwasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd Lleol. Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn deall ac yn ystyried yr effaith sylweddol y gallai integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ei chael o fewn ei raglen drawsnewid ehangach ar gyfer y Cyngor cyfan.

6 http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/Housing_Mental_Health_welsh_web.pdf

# A yw Cyngor Ceredigion yn helpu pobl i ddatblygu?

75 Mae canran yr oedolion o oedran gweithio yng Ngheredigion heb unrhyw gymwysterau wedi lleihau'n raddol ers 2001 ac 11.9 y cant oedd y ffigur yn 2008, sy'n parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru o 14.6 y cant ac ymhlith yr isaf yn genedlaethol.

76 Roedd gan 33.7 y cant o oedolion o oedran gweithio gymwysterau lefel uwch[7] yn 2009. Roedd hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 29.6 y cant ac roedd ymhlith y gorau o bob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru. Yma eto llwyddwyd i barhau i fod yn well na chyfartaledd Cymru ers 2001.

77 Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r safonau disgwyliedig yn Gymraeg neu Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2 yng Ngheredigion wedi cynyddu ers 1999, ac mae'n parhau i fod yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru yn 2010. Ceredigion yw un o'r pedwar awdurdod yng Nghymru sydd â'r gyfradd uchaf o ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf, ac mae perfformiad Cymraeg iaith gyntaf yn dda ar y cyfan o gymharu â'r awdurdodau tebyg hyn. Mae cyfradd presenoldeb ysgolion uwchradd Ceredigion wedi cynyddu ers 1999, ac mae ymhlith yr uchaf o blith y 22 o gynghorau yng Nghymru.

78 Mae Estyn, sef Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn edrych ar ba mor dda y mae cynghorau yn helpu plant a phobl ifanc i feithrin gwybodaeth a sgiliau. Mae'n arolygu ysgolion, colegau addysg bellach a sefydliadau hyfforddi ac yn llunio barn ar ba mor dda y mae cynghorau yn cefnogi'r darparwyr addysg hyn. Mae Estyn, drwy ei dimau rhanbarthol, yn dadansoddi gwybodaeth am berfformiad, yn ymweld ag ysgolion ac yn cyfarfod yn rheolaidd â chyfarwyddwyr addysg er mwyn llunio barn ar rôl y Cyngor a pherfformiad ym maes addysg yn yr ardal. Rhoddir crynodeb o ganlyniadau arolygiadau Estyn yn y paragraffau isod.

## A yw Cyngor Ceredigion yn datblygu addysg yn y sir?

79 Mae addysg yng Ngheredigion yn dda ar y cyfan gydag enghreifftiau o arferion rhagorol. Mae'r Cyngor wedi nodi blaenoriaethau ac mae'r rhain yn nodi agenda glir ar gyfer gwelliant pellach. Nododd yr arolygiad diweddaraf gan Estyn yn 2009 bod gwasanaethau addysg y Cyngor yn cynnwys nodweddion da ym mhob maes a arolygwyd a oedd yn drech na'r diffygion ac mae ei ragolygon ar gyfer gwella yn dda, gyda gwelliannau pwysig wedi'u cyflawni eisoes mewn rhai meysydd.

80 Er mwyn gwella ymhellach, mae uwch dîm rheoli newydd y gwasanaethau Addysg a Hamdden yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r lleoedd gwag mewn ysgolion, y diffygion yng nghyllidebau ysgolion uwchradd ac i herio ysgolion sy'n tanberfformio, yn cynnwys Anghenion Addysgol Arbennig a gwasanaethau cymorth ymddygiad. Ceir arwyddion bod dull gweithredu cyson lle mae mwy o atebolrwydd o ran perfformiad i ysgolion yn dechrau cael effaith gadarnhaol. Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn perfformio'n well o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol ymhob cyfnod allweddol. Er enghraifft, yn 2010 roedd y Cyngor yn y chweched safle o ran Dangosyddion Craidd Strategol yng nghyfnod allweddol 1 a 2 a'r pumed safle yng nghyfnod allweddol 3. Mae gan y sir y sgôr bwyntiau gyfartalog ehangach uchaf ond un o blith y 22 o gynghorau yng Nghymru.

7 Cymwysterau ar Lefel 4 ac uwch yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol, e.e. tsytysgrif Addysg Uwch, HND neu Radd.

81 Yn 2010, roedd cyfradd y disgyblion cynradd ac uwchradd yng Ngheredigion nad ydynt yn mynychu'r ysgol ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n dda gyda'i ysgolion i sicrhau nad oedd unrhyw ddisgybl uwchradd yn cael ei wahardd yn barhaol o'r ysgol, a hanerwyd nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro.

82 Y Cyngor oedd un o'r olaf yng Nghymru i ddechrau trawsnewid ei wasanaethau addysg yn sgîl lleihad yn nifer y disgyblion. Yn ogystal, mae nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n byw yng Ngheredigion yn lleihau'n gyflym, gan adael llawer o leoedd gwag mewn ysgolion. O ganlyniad, mae ganddo un o'r lefelau uchaf yng Nghymru o leoedd gwag drud yn ei ysgolion. Dros y tair blynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi gweithredu'n gyflym i leihau'r nifer fawr o leoedd gwag mewn ysgolion, ac mae'n gwneud cynnydd da. Mae'r Cyngor wedi cau 20 y cant o'i ysgolion yn ystod y cyfnod byr hwn, ac mae ganddo gynllun clir i leihau nifer yr ysgolion a nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion ymhellach. Er iddo leihau nifer y lleoedd gwag a dangos gwelliant sylweddol, nid yw hyn yn ddigon o hyd o gymharu â'r lleihad yn nifer y disgyblion. Fodd bynnag, mae'r cyfeiriad strategol clir y mae'r Cyngor yn ei ddilyn gyda'r agenda 3-19 yn lleihau nifer y lleoedd gwag yn sylweddol dros y tair blynedd nesaf.

83 Fel y cyfryw mae'n briodol i'r Cyngor lunio amcan gwella i ddatblygu addysg yng Ngheredigion, yn cynnwys lleihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion.  Mae hyn hefyd yn helpu i wella ansawdd ei wasanaeth addysg ac yn hyrwyddo tegwch ac effeithlonrwydd. Mae'r flaenoriaeth hon wedi'i nodi'n glir yng Nghynllun Busnes yr Adran. Fodd bynnag, mae angen gwneud cyfeiriad cliriach yng Nghynllun Gwella'r Cyngor i ddangos pwysigrwydd y gwaith hwn a'r canlyniadau a gyflawnir.

84 Mae gwariant Ceredigion fesul disgybl ymhlith yr uchaf yng Nghymru ar y lefel cynradd ac uwchradd. Ar adeg arolygiad diwethaf Estyn ym mis Gorffennaf 2009, £550,000 oedd cyfanswm y diffygion yng nghyllidebau ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, trawsnewidwyd y balans net fel ydoedd ar 31 Mawrth 2010 i weddill o £228,000, er bod gan dair ysgol falans diffyg cyfunol o £426,000. Ym mis Mawrth 2010, roedd gan ysgolion Ceredigion gyfanswm o £1.38 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn, sef y lefel isaf yng Nghymru, er bod 48 y cant o'i ysgolion yn cadw mwy na 5 y cant o'u cyllideb mewn cronfeydd wrth gefn (mae 20 y cant o'r ysgolion hyn yn cadw dros 10 y cant o'u cyllideb mewn cronfeydd wrth gefn).

85 Er ei bod yn ddoeth cadw rhywfaint o arian mewn cronfeydd wrth gefn, mae'r Cyngor yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod y lefelau'n briodol, a bod arian i wella addysg yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon.  Mae ysgolion uwchradd Ceredigion wedi mynd i'r afael â'r materion a arweiniodd at achosion blaenorol o orwario, a chan gydweithio â'r adran Addysg, maent wedi llwyddo i fantoli eu cyllidebau gwaith ar gyfer 2009-10 i raddau helaeth.  Mae gwaith cynllunio ariannol yn y sector ysgolion cynradd yn llawer gwell bellach.

# A yw Cyngor Ceredigion yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw?

86 Y disgwyliad oes i fenywod yng Ngheredigion ar gyfer 2006-08 oedd 84.4 mlynedd, sef yr uchaf yng Nghymru. Y disgwyliad oes i ddynion yng Ngheredigion ar gyfer 2006-08 oedd 80.7 mlynedd, sef yr uchaf yng Nghymru hefyd.

87 30.5 y cant oedd y gyfradd anweithgarwch economaidd yng Ngheredigion yn 2009-10 (5.4 y cant a oedd am gael swydd a 25.2 y cant nad oeddent am gael swydd). Mae'r gyfradd yn uwch na chyfartaledd Cymru oherwydd y nifer fawr o fyfyrwyr a'r gyfran uwch o'r boblogaeth o oedran gwaith sydd wedi ymddeol. Rhwng 2001 a 2008 roedd y gyfradd gyflogaeth yn is na chyfradd gyflogaeth Cymru yn gyffredinol. Mae gan y sir y lefel isaf o ddiweithdra hefyd, sef dim ond 1.7 y cant (918 o geiswyr gwaith) ym mis Gorffennaf 2010 o gymharu â chyfartaledd Cymru o 3.6 y cant. £425.50 oedd yr enillion wythnosol cyfartalog yng Ngheredigion yn 2010, sef yr isaf o blith 22 awdurdod lleol Cymru, a bu'r bwlch hwn yn ehangu ers 1999.

88 Ers 1998-99 bu lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden egnïol yn well na chyfartaledd Cymru, ac roeddent ymhlith yr uchaf o blith y 22 o gynghorau yng Nghymru y tro diwethaf iddynt gael eu mesur.

89 Rhwng 2007-2009 roedd cyfran ffyrdd dosbarth 'A' y sir a oedd mewn cyflwr gwael cryn dipyn yn well na'r gyfran ar gyfer Cymru gyfan, ac mae'n parhau i fod tua 40 y cant yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol.

90 Rhwng 2000-2008, roedd cyfradd yr achosion o bobl yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Ceredigion ymhlith y gwaethaf yng Nghymru, ond mae'r gyfradd wedi gwella rhywfaint ers 2006. Cydnabyddir bod ystadegau o'r fath yn sensitif iawn i newidiadau bach oherwydd y llifau traffig cymharol isel. Yn ogystal, roedd cyfran uchel o'r damweiniau hyn yn cynnwys gyrwyr beiciau modur ar y penwythnos ar gefnffyrdd yn ymweld â Cheredigion. Cofnodir ystadegau cefnffyrdd ynghyd â damweiniau ar ffyrdd sirol, er nad yw'r Cyngor yn gyfrifol am gefnffyrdd.

91 Mae gan Geredigion y gyfradd isaf o droseddau a gofnodwyd yng Nghymru, ac mae'n parhau i fod ond hanner cyfartaledd Cymru. Ceredigion sydd wedi cofnodi'r gyfradd droseddau isaf neu isaf ond un yng Nghymru yn ystod pob un o'r saith mlynedd diwethaf. Y troseddau mwyaf cyffredin yw trais yn erbyn yr unigolyn (25 y cant o'r troseddau a gofnodir) a difrod troseddol (22 y cant o'r troseddau a gofnodir).

## A yw Cyngor Ceredigion yn diogelu'r amgylchedd ac yn darparu amgylchedd cynaliadwy?

92 Mae amddiffyn yr amgylchedd a darparu amgylchedd cynaliadwy yn fater priodol i'r Cyngor fynd i'r afael ag ef fel un o'i bum amcan gwella. Fodd bynnag, ceir rhai gwendidau yn null gweithredu'r Cyngor mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon. Mewn agenda gynaliadwyedd eang iawn, mae'r amcan gwella yn eang iawn hefyd ac yn cynnwys nifer o elfennau gwahanol. Nid oes gan y Cyngor ddigon o wybodaeth berthnasol am berfformiad, ac nid yw'n gwybod sut y bydd yn dangos budd y gwaith hwn i bobl leol. Fel y cyfryw, nid yw'n debygol y bydd y Cyngor yn gallu dangos tystiolaeth o welliant y flwyddyn nesaf nac yn y blynyddoedd i ddod. Nid yw Cyngor Ceredigion yn unigryw yn hyn o beth, a chaiff Cynghorau eraill anawsterau tebyg i ddangos sut y mae pobl ar eu hennill o ganlyniad i'w camau gweithredu.

93 Mae'r Cyngor yn arwain y ffordd o ran ailgylchu, ond mae'n ei chael yn fwyfwy anodd i gyflawni'r targedau bob blwyddyn. Mae'n gweithio gyda chynghorau eraill i ddod o hyd i atebion fel y gall wella ymhellach a chyflawni'r targedau gwastraff cenedlaethol erbyn 2025. Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda gyda Chyngor Sir Powys i roi trefniadau ar waith i drin gwastraff bwyd, ond gall gael anhawster cyrraedd y targedau gwastraff bwyd cenedlaethol o 2012-13. Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn aelod o Bwyllgor Rheoli Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru, ond yn fwy diweddar rôl arsylwi a gyflawnwyd ganddo.

94 Mae gwasanaeth gwastraff y Cyngor wedi ceisio nodi'r hyn y mae ei gwsmeriaid yn ei ffafrio a ph'un a ydynt yn fodlon, ond mae angen iddo wella'r ffordd y mae'n mesur cyfranogiad y cyhoedd o ran ailgylchu a chompostio. Gallai unrhyw ddiffyg manylion gyfyngu ar allu'r Cyngor i wneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid a thrawsnewid ei wasanaeth yn unol ag anghenion lleol.

95 Mae'r Cyngor wedi cyflawni targedau ei lwfans tirlenwi, ac mae ei brosiectau ailgylchu a chompostio wedi ei roi mewn sefyllfa dda dros y byrdymor i'r tymor canolig. Mae targedau ailgylchu tymor hwy yn fwy heriol, yn enwedig ar ôl 2020. Mae cydweithio â Chyngor Sir Powys yn galonogol ac mae'n gwneud cynnydd tuag at gaffael cyfleuster trin gwastraff gweddilliol a ddylai gyflawni targedau gwastraff yn y dyfodol. Mae'r Cyngor hefyd yn gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y sir gan gynnwys llifogydd, erydiad arfordirol, a thrwy reoli'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon.

96 Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran rheoli ei ynni a'i allyriadau carbon. Mae allyriadau CO2 y pen y sir yn parhau'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru, er mai'r prif reswm am hyn yw mai ychydig iawn o ddiwydiannau mawr sy'n allyrru CO2 yng Ngheredigion. Mae gan y Cyngor dargedau clir ar gyfer lleihau ei ddefnydd o ynni, ac mae ganddo wybodaeth dda am ba mor dda y mae'n gwneud cynnydd. Mae un o'i brosiectau wedi helpu i leihau biliau ynni ac allyriadau carbon, gan fynd i'r afael â 'thlodi tanwydd' yn Nhregaron a phentrefi cyfagos ar yr un pryd.

97 Gan fod cymaint o boblogaeth a seilwaith datblygu Ceredigion ar hyd yr arfordir, gallai effaith erydu arfordirol a llifogydd fod yn niweidiol iawn i'r economi leol a lles yr ardal. Mae'r Cyngor wedi cydnabod hyn fel risg uchel ac mae'n gwneud trefniadau i liniaru'r risg hon. Sicrhaodd y Cyngor arian Amddiffyn yr Arfordir gan Lywodraeth y Cynulliad (a ategwyd gan Arian Cydgyfeirio) i wella'r amddiffynfeydd morol yn Aberaeron. Yn y Borth, nododd y Cyngor risg sylweddol ac mae ganddo gynlluniau ar waith (gydag arian gan Lywodraeth y Cynulliad) i ddechrau gwaith i wella'r amddiffynfeydd arfordirol yn 2011-12. Mae'r cynllun yn cynnwys creigres arloesol islaw'r llanw a fydd yn lleihau erydiad ac yn darparu amwynder ar gyfer syrffio.

98 Mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol yn debygol o achosi stormydd garwach a chynnydd yn lefelau'r môr. Drwy ddefnyddio gwell gwybodaeth ynglŷn â'r risgiau y bydd hyn yn digwydd, bydd angen i'r Cyngor ystyried gwelliannau pellach i amddiffynfeydd morol ac amddiffynfeydd llifogydd mewndirol, a helpu cymunedau i wrthsefyll llifogydd yn well.

## A yw Cyngor Ceredigion yn adfywio Aberystwyth fel canolfan ranbarthol a chenedlaethol?

99 Mae'r Cyngor wedi dewis adfywio Aberystwyth fel amcan gwella. Mae hyn mewn ymateb i'r ffaith bod y Cyngor a Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi Aberystwyth fel Ardal Adfywio. Mae'r dynodiad hwn yn cydnabod yr ardaloedd o amddifadedd yn yr ardal a phwysigrwydd rhanbarthol a chenedlaethol Aberystwyth. Er bod yr amcan hwn wedi'i fynegi'n well na'r pedwar amcan arall, mae angen gwneud rhagor o waith arno o hyd.

100 Paratowyd uwchgynllun er mwyn pennu fframwaith gweithredu, a disodlwyd hwn yn 2010 gan Gynllun Gweithredu Aberystwyth sy'n nodi camau â blaenoriaeth yng nghanol y dref. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn chwarae rôl arweiniol gyda'r Cyngor Sir gyda chefnogaeth partneriaid eraill, ac mae wedi darparu £10.3 miliwn o arian cyfatebol dros dair blynedd ar gyfer y prosiect. Bydd y prosiect yn canolbwyntio'n bennaf ar adfywio canol y dref ei hun yn ogystal â cheisio gwella'r ardal ar lan y môr a'r promenâd, a gwella'r economi. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull gweithredu corfforaethol ac amlddisgyblaeth o ran adfywio Aberystwyth, gan ddwyn ynghyd gymorth proffesiynol o bob adran, ac mae'n cydgysylltu'r cymorth gan gyrff cyhoeddus cenedlaethol a rhanbarthol i helpu i weithredu'r prosiect. Mae'r Cyngor wedi helpu i sefydlu Bwrdd Partneriaeth a Thîm Cyflawni i oruchwylio'r broses o gynllunio, gwneud penderfyniadau a gweithredu'r prosiect.

101 Yn ogystal ag Aberystwyth, mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi adfywio mewn rhannau eraill o'r Sir, ac mae wedi cwblhau Strategaeth Adfywio Aberteifi a De Ceredigion ac Ardal Adfywio Ffisegol Tregaron gydag arian gan Lywodraeth y Cynulliad. Hefyd gall y Cyngor ddangos cefnogaeth i weithgarwch adfywio gan ei wasanaethau, er enghraifft drwy Ardaloedd Adnewyddu Tai, trefi teithio cynaliadwy, dysgu seiliedig ar waith a chynlluniau seilwaith cyfalaf.

102 Gall y Cyngor ddangos bod ganddo ddull gweithredu strategol ar gyfer adfywio. Mae wedi sefydlu Tîm Datblygu corfforaethol mewnol o swyddogion a'r Cyngor yw'r corff arweiniol ar gyfer partneriaeth Adfywio Ceredigion, sy'n ei helpu i gysoni ei gynlluniau ei hun â chynlluniau ei bartneriaid eraill yn y sir.Y Cyngor yw'r corff arweiniol ar gyfer cyflawni Cynllun Datblygu Gwledig Ceredigion, gyda £4.4 miliwn o arian i gefnogi cymunedau gwledig a gwaith adfywio ledled y sir. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor, gyda'i bartneriaid, ddatblygu dulliau a mesurau i ddangos p'un a yw'r cynlluniau a'r prosiectau hyn wedi cyflawni gwell mynediad i wasanaethau ar gyfer pob cymuned a gwell canlyniadau ar gyfer dinasyddion Ceredigion.

## A yw gwasanaethau eraill Cyngor Ceredigion yn creu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw?

103 Ceredigion yw'r sir fwyaf diogel yng Nghymru o ran trosedd ac anhrefn, ac mae gan y Cyngor gydberthnasau da gyda'r Heddlu a phartneriaid eraill i wella diogelwch Ceredigion ymhellach. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn cydweithio i sicrhau bod yr ofn o droseddau'n parhau'n isel. Yn Aberystwyth maent yn gweithio tuag at gyflawni statws dyfarniad y Faner Borffor ar gyfer gwneud y dref yn fwy diogel gyda'r nos, yn enwedig drwy leihau achosion o gamddefnyddio alcohol.

104 Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu sawl menter sydd â'r nod o leihau tensiynau a hyrwyddo undod. Er enghraifft, sesiynau trafod llwyddiannus rhwng cenedlaethau ar gyfer pobl ifanc a phobl hŷn er mwyn gwella dealltwriaeth cenedlaethau o'i gilydd. Yn ogystal, drwy un o fentrau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, mae'r heddlu bellach yn cael cymorth gan gydgysylltwyr cam-drin domestig gwasanaethau cymdeithasol wrth ymdrin â llawer o anghydfodau domestig yng Ngheredigion, yn hytrach na bod yr heddlu'n gweithredu ar eu pen eu hunain fel y byddent wedi gwneud yn y gorffennol.

105 Ond cymysg yw gwasanaeth troseddau ieuenctid Ceredigion, ac er bod ei arfer diogelu yn gadarn, roedd y ffaith nad oedd yn rhoi digon o sylw i reoli'r Risg o Niwed i eraill yn achosi cryn bryder. Rydym yn gwerthfawrogi fod y sampl a gymerwyd yn fach, ac yn cydnabod bod y gwasanaeth wedi gweithredu i wneud gwelliannau drwy gyflwyno rhai newidiadau addawol i arferion rheoli.

106 Mae gan Wasanaeth Cynllunio'r Cyngor rôl allweddol o ran cyflawni nifer o amcanion gwella'r Cyngor. Amddiffynnodd y Cyngor ddwy apêl gynllunio fawr yn llwyddiannus sy'n cael effaith uniongyrchol ar ei nodau o ran datblygu economaidd ac adfywio. Mae'r gwasanaeth wedi gweithio'n agos gyda'r sector addysg mewn perthynas â Rhaglen Rhesymoli Addysg y Cyngor ac wedi gweithio'n agos gyda Phrifysgolion lleol. Cynrychiolir y gwasanaeth ar weithgorau mewnol sy'n cefnogi ymdrechion datblygu a thrawsnewid yn y Cyngor a thu hwnt.

107 Fodd bynnag, mae'r wybodaeth sydd ar gael yn rhoi darlun gwael o berfformiad y Gwasanaeth Cynllunio. Ceredigion oedd y sir arafaf yng Nghymru o ran penderfynu ar geisiadau cynllunio yn 2009-10 ac roedd cyfraddau llwyddiant mewn apeliadau cynllunio, a fu'n dda yn y gorffennol, wedi gostwng i 63 y cant yn 2009-10. Mae'r ymateb i gwynion am achosion o dorri rheoliadau cynllunio yn wael hefyd. Nid yw'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Unedol, ac mae ei raglen ar gyfer cyflawni Cynllun Datblygu Lleol wedi llithro 13 mis o gymharu â'r amserlen wreiddiol. Nid yw'r Gwasanaeth yn defnyddio'r data sydd ar gael gan Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru i ddangos sut y mae'n perfformio o'i gymharu ag eraill yng Nghymru.

108 Mae'r Cyngor wedi adolygu ei gynllun dirprwyo i swyddogion yn unol ag argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru. Mae hyn wedi helpu i gyflymu'r broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ac mae wedi cyfrannu at wella arferion gwaith rhwng cynghorau a swyddogion. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd gwael o ran ymateb i'n hargymhellion eraill sy'n ymwneud â'r ffordd y gwneir penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

109 Mae'r ôl-groniad o geisiadau cynllunio wedi lleihau'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae cyflymder cyffredinol y broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio wedi dechrau gwella yn ystod 2010-11, ond mae'n rhy gynnar i asesu p'un a ellir cynnal y gwelliant hwn.

# Beth y dylai Cyngor Sir Ceredigion ei wneud?

110 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem yn dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

111 Yn sgîl ein gwaith nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol ond rydym o'r farn bod angen i'r Cyngor ystyried ein cynigion i'w helpu i wella:

**Cynigion a wnaed yn ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol (Awst 2010)**

Dylai'r Cyngor lunio cynllun strategol ar gyfer newid a chytuno arno gan nodi sut mae'n bwriadu sicrhau ei fod mewn gwell sefyllfa i gefnogi gwelliannau yn y dyfodol gydag adnoddau mwyfwy cyfyngedig. Dylai hyn gynnwys manylion ynghylch sut y bydd y Cyngor yn:

- atgyfnerthu ei drefniadau arwain, pennu cyfeiriad, llywodraethu a chraffu corfforaethol er mwyn sicrhau y gall wneud y penderfyniadau angenrheidiol;
- pennu cyfeiriad clir drwy nodi blaenoriaethau, amcanion a chanlyniadau mesuradwy allweddol mewn perthynas â'i holl amcanion a chynlluniau strategol gan ddangos sut y bydd darpariaeth ariannol briodol ac adnoddau digonol ar gael i gefnogi ei weithgareddau i gyflawni'r canlyniadau hynny;
- egluro ei strategaeth gorfforaethol ar gyfer datblygu gwasanaethau a rennir a dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau sydd â chysylltiad clir â'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig;
- parhau i ddatblygu ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ac atgyfnerthu ei ddull strategol o reoli adnoddau, gan sicrhau bod adnoddau ynghlwm wrth flaenoriaethau a llywio dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau;
- adolygu'r ffordd y mae'n rheoli pobl, eu perfformiad a'u sgiliau, er mwyn cefnogi'r broses o gyflawni blaenoriaethau strategol mewn modd effeithlon;
- adeiladu ar ei adolygiadau diweddar er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd ei fframwaith partneriaeth;
- parhau i atgyfnerthu ei ddefnydd o TGCh, a gwella'r broses o reoli perfformiad, risg a phrosiectau ar lefel strategol.

## Cynigion newydd

Bydd angen i'r Cyngor wneud y canlynol:

- nodi'r hyn y mae am ei gyflawni o'i raglen drawsnewid yn glir a sut y bydd yn rheoli, yn cefnogi ac yn cyflawni ei raglen drawsnewid ac yn talu amdani;
- cyhoeddi amcanion gwella yn gynharach y flwyddyn nesaf;
- ystyried y wybodaeth sydd ar gael eisoes ar gyfer pob amcan gwella i gadarnhau'r sefyllfa bresennol, a nodi'r bylchau sydd angen eu llenwi;
- monitro cynnydd a dangos y canlyniadau yn glir ar gyfer trigolion a dinasyddion lleol;
- sicrhau cysylltiadau clir rhwng yr Amcanion Gwella a chynlluniau eraill y Cyngor;
- defnyddio mwy na'r mesurau sydd ganddo ar hyn o bryd yn Amcanion y Cynllun Gwella er mwyn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad i'r cyhoedd.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio amryw o agweddau ar sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Crëwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005 drwy uno'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian y cyhoedd, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi ymestyn pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' ble bynnag mae'n mynd.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef; cyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau.[8]

8 Cynhelir yr asesiad hwn ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Bydd yn penderfynu a yw pob awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad o wybodaeth am welliannau a chynllunio ar gyfer gwella, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn penderfynu a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Bydd hyn yn cael ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol – asesiad sy'n edrych i'r dyfodol i weld pa mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad – asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ar sut y llwyddodd yr awdurdod i wella.

Cyhoeddir canlyniad(au) yr asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu, o dan adran 19 o'r Mesur. Wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ardystio ein bod wedi cynnal archwiliad adran 17 ac asesiad gwella adran 18.

Dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, gan ei gyhoeddi o bosibl (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn a gyhoeddir (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau o Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23) sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad a wnaed ganddo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Geredigion a Chyngor Ceredigion

Yn 2009-10, gwariant refeniw gros yr Awdurdod oedd £202 miliwn, a gwariodd £30 miliwn ar gynlluniau cyfalaf hefyd.

Yn 2010-11, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D yng Ngheredigion yw £1,097.25 y flwyddyn, sy'n adlewyrchu cynnydd o 2.82 y cant o gymharu â'r cyfartaledd o £1,067.17 y flwyddyn ar gyfer 2009-10. Mae 62 y cant o dai Ceredigion o fewn bandiau treth gyngor A i D.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cyflogi 3,700 aelod o staff, mewn chwe adran, sy'n darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd. Lleolir prif swyddfeydd y Cyngor yn Aberaeron ac Aberystwyth, a cheir is-swyddfeydd yn Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron.

Yr Aelod Cynulliad dros Geredigion yw: Elin Jones, Ceredigion, Plaid Cymru.

Yr Aelod Seneddol dros Geredigion yw Mark Williams, Ceredigion, y Democratiaid Rhyddfrydol.

Ceir 42 o Gynghorwyr yng Ngheredigion a etholir bob pedair blynedd ac sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys Aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 20 o Blaid Cymru
- 12 o gynghorwyr Annibynnol
- 9 o'r Democratiaid Rhyddfrydol
- 1 o'r Blaid Lafur

Mae'r aelodau annibynnol, aelodau'r Democratiaid Rhyddfrydol ac aelodau'r blaid Lafur wedi ffurfio clymblaid sy'n arwain y Cyngor.

Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn cynnwys chwe chyfarwyddiaeth

- Adran y Prif Weithredwr - Miss E. M. Bronwen Morgan, Prif Weithredwr
- Addysg a Gwasanaethau Cymunedol - Mr Eifion Evans, Cyfarwyddwr
- Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai - Mr Bryan Thomas, Cyfarwyddwr
- Cyllid - Mr W. Gwyn Jones BSc FCCA, Cyfarwyddwr
- Priffyrdd, Eiddo a Gwaith - Mr Huw T. Morgan, Cyfarwyddwr
- Gwasanaethau Cymdeithasol - Mr Parry Davies, Cyfarwyddwr

# Atodiad 3

## Asesiad corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir prif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Awst 2010 isod:

**Casgliad cyffredinol**

Mae Cyngor Sir Ceredigion mewn sefyllfa fregus ac mae'n cydnabod bod angen iddo newid y ffordd y mae'n rheoli ac yn cyflawni gwelliannau yn y chwe mis nesaf er mwyn iddo wella gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

**Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Mae'r Cyngor wedi cydnabod nad yw'r ffordd y mae wedi cyflawni gwelliannau yn y gorffennol yn addas mwyach i ymdrin â heriau'r dyfodol ond nid yw'r adolygiadau a ddechreuwyd ganddo wedi esgor ar y newid corfforaethol angenrheidiol.

- mae tîm arwain y Cyngor wedi cyflawni gwelliannau yn y gorffennol drwy drefniadau adrannol traddodiadol;
- mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen am newid i ymdrin â'r heriau ariannol a gwella gwasanaethau;
- mae tîm arwain y Cyngor wedi dechrau paratoi ar gyfer gwell trefniadau gweithio corfforaethol ond nid ydynt wedi cynllunio na chyflawni'r newid corfforaethol sydd ei angen ar raddfa lawn eto.

**Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella**

Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol cadarn a thraddodiadol ac mae'n barod i gydweithredu, ond nid oes ganddo drefniadau corfforaethol digonol ar waith eto i ymdrin â heriau'r dyfodol.

- mae trefniadau rheoli ariannol yn gadarn ond yn draddodiadol, ac mae'r Cyngor yn barod i gydweithredu, ond mae'n cydnabod yr angen am drefniadau mwy cadarn i gynllunio, rheoli a gwerthuso ei bartneriaethau;
- mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes ganddo flaenoriaethau strategol clir eto a bod ei drefniadau ar gyfer rheoli pobl, perfformiad, prosiectau, gwybodaeth, llywodraethu a risg yn annigonol i gefnogi unrhyw welliannau yn y dyfodol.

I weld yr adroddiad llawn, ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk neu cysylltwch â ni yn y cyfeiriad ar glawr mewnol yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4

## Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Sir Ceredigion

Mae Mesur Llywodraeth Leol 2009 wedi rhoi'r cyfle i Swyddfa Archwilio Cymru ailystyried y ffordd y dylid cyflwyno canfyddiadau'r gwaith archwilio ariannol a'r gwaith archwilio perfformiad i gyrff llywodraeth leol. Fel y gwyddoch, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol yn ystod y misoedd nesaf a bydd llawer o'r materion a nodwyd yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig yn draddodiadol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi achub ar y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Penodedig (y cyfrifon, y casgliad gwerth am arian a'r archwiliad o'r cynllun gwella) yn y llythyr byr hwn, sy'n ffurfio'r Llythyr Archwilio Blynyddol. Bwriedir i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol, ond caiff ei gyflwyno i'r Cyngor a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol ac felly mae'n cyflawni fy nghyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiad o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd Cyngor Sir Ceredigion â'r gofynion adrodd sy'n gysylltiedig â threfniadau ariannol a gwella perfformiad ond mae'n wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol agos.**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am wneud y canlynol:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- cyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i ni:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol;
- cyflwyno tystysgrif i gadarnhau ein bod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Ar 30 Medi 2010 rhoddwyd barn archwilio ddiamod gennym ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor. Mae ein hadroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

Nodwyd y materion canlynol yn ystod yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu, a chyflwynwyd adroddiad arnynt i'r Pwyllgor Archwilio ar y pryd:

- Yn ei chyllideb ar 22 Mehefin 2010, cyhoeddodd Llywodraeth San Steffan y byddai cynnydd ym mhensiynau'r sector cyhoeddus yn y dyfodol yn adlewyrchu newidiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, a hynny o fis Ebrill 2011. Pennir unrhyw gynnydd ar hyn o bryd drwy gyfeirio at y Mynegai Prisiau Manwerthu. Barnwyd bod hwn yn ddigwyddiad ôl-fantolen nad yw'n achosi addasiad o dan FRS 21 ac felly ei bod yn ofynnol datgelu natur y digwyddiad ac amcangyfrif o'i effaith ariannol. Cynhwysodd y Cyngor ddatgeliad yn y cyfrifon, ac yn ogystal derbyniodd amcangyfrif o'r effaith ar ei gyfrifon gan ei actiwari;
- Ar y cyfan roeddem o'r farn bod y broses o baratoi'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn wedi'i rheoli'n dda. Roedd y papurau gwaith a ddarparwyd wedi gwella ymhellach ers y flwyddyn flaenorol gyda mwy o wybodaeth ar gael ar ddechrau'r archwiliad a mwy o ddogfennau wedi'u darparu'n electronig. Roedd y trefniadau a roddwyd ar waith i ganiatáu ar gyfer absenoldeb a newidiadau o ran staff allweddol wedi gwneud argraff dda arnom hefyd, ac mae'r rhain wedi helpu i sicrhau archwiliad effeithlon. Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r swyddogion a'u cymorth a'u cydweithrediad parhaus drwy gydol ein gwaith;
- Paratowyd ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn effeithiol ac yn unol ag amserlen y Cynulliad.

Nodwyd yr ystyriaeth ganlynol gennym ar gyfer y blynyddoedd i ddod hefyd:

- Yng ngo leuni'r canllawiau diweddar a gyhoeddwyd, mae angen i'r Cyngor ystyried sut y caiff asedau eu trin mewn perthynas ag ysgolion gwirfoddol a reolir neu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Lle nad yw prif risgiau a buddiannau'r asedau hyn yn eiddo i'r Cyngor, yna dylid datgelu'r asedau mewn nodyn i'r cyfrifon ac ni ddylid eu cynnwys yn y fantolen. O drafod â swyddogion, rydym ar ddeall fod y Cyngor am adolygu holl asedau ysgolion yn llawn i weld a ydynt yn gymwys i gwmpas y canllawiau hyn. Er mwyn helpu'r ymarfer hwn i fod yn gynhwysfawr, rydym yn hapus â phenderfyniad y Cyngor i'w gwblhau mewn pryd i'w cynnwys yng nghyfrifon 2010-11.
- Nid yw ased mewn perthynas â benthyciadau perchenogaeth tai cost isel wedi'i hadlewyrchu yn y cyfrifon ar hyn o bryd. Efallai yr hoffai'r Cyngor ystyried p'un a fyddai'n briodol cynnwys ased ariannol neu ased wrth gefn mewn perthynas â'r benthyciadau hyn ar gyfer y dyfodol.
- Nid yw pennawd ar wahân wedi'i ddefnyddio o fewn y datganiadau llif arian ar gyfer mewnlifau o braeseptau. Efallai y bydd y Cyngor am ddatgelu'r swm hwn ar wahân yn y dyfodol fel yr argymhellir yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir.
- O ran adroddiad yr actiwari, ceir elfen bensiwn nas ariennir yng nghynllun pensiwn y Cyngor. Nid yw hon wedi'i datgelu ar wahân ar hyn o bryd. Efallai y bydd y Cyngor am ddadansoddi elfennau a ariennir ac elfennau nas ariennir y cynllun ar wahân ar gyfer y dyfodol.

Mae ein hadolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rydym wedi dibynnu hefyd ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur Llywodraeth Leol. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, tynnaf eich sylw at y mater canlynol:

- Mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli'r gyllideb ac mae prosesau cynllunio ariannol tymor canolig wedi'u datblygu'n dda, ond mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol. Cyfeirir at hyn ymhellach yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Mae Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-2011 yn bodloni'r gofynion statudol ac yn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad yn 2009 2010. Fodd bynnag, rydym wedi nodi rhai argymhellion ar gyfer y Cyngor, a chaiff y rhain eu hamlinellu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Mae rhwymedigaeth arnom i ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau. Gallem wneud hynny nawr i raddau helaeth, ond rydym yn parhau i ystyried nifer o gwestiynau a godwyd gan etholwyr. Er nad yw'r cwestiynau hyn yn berthnasol i'r cyfrifon, mae angen i ni dalu sylw iddynt. O ganlyniad nid ydym mewn sefyllfa i gyhoeddi ein tystysgrif hyd yma.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2009-2010 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Strategaeth Archwilio Ariannol.

Grant Thornton UK LLP

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

30 Tachwedd 2010

# Atodiad 5

## Amcanion gwella Cyngor Ceredigion

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella yn ei Gynllun Gwella sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=14508. Mae'r agweddau fel a ganlyn:

- Trawsnewid ein gwasanaethau i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol i ddinasyddion;
- Adfywio Aberystwyth fel canolfan ranbarthol a chenedlaethol;
- Datblygu Addysg yng Ngheredigion;
- Mesur i ddiogelu'r amgylchedd a darparu amgylchedd cynaliadwy;
- Gwella'r ffyrdd rydym yn diogelu'r bobl sy'n agored i niwed yn ein cymuned.

# Atodiad 6

## Cyfeiriadau

Daw'r data y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn o un o'r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau crynhoi ardaloedd lleol
- Gwefannau a chynlluniau gwella'r Awdurdod Gwella ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil Aelodau
- Swyddfa Ystadegau Gwladol